Atodiad 2

# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL

# CYFARFOD CABINET: 17 Mehefin 2021

---

## CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: LLEOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD I WASANAETHU CATHAYS A RHANNAU O GABALFA, Y MYNYDD BYCHAN, YSTUM TAF A PHLASNEWYDD

## ADDYSG, CYFLOGAETH A SGILIAU (Y CYNGHORYDD SARAH MERRY)

**EITEM AGENDA:6**

---

**Rheswm dros yr Adroddiad hwn**

1. Diben yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Cabinet am yr ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad ar gynigion ynghylch darpariaeth ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Llandaf a Phlasnewydd.

**Cefndir**

2. Yn ei gyfarfod ar 17 Rhagfyr 2020, awdurdododd Cabinet y Cyngor swyddogion i:

   - ymgynghori ar gynnig i gynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 0.9 Dosbarth Mynediad (DM) (192 o leoedd) i 1.5 DM (315 o leoedd), o fis Medi 2022.

   - cynnal ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid i ffurfio cynigion a fyddai'n cael eu datblygu i ddarparu cydbwysedd priodol o leoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal.

3. Nodwyd y bydd yr ymgynghoriad ar y Trefniadau Derbyn ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 yn cynnwys cynnig i leihau nifer derbyn Ysgol Gynradd Allensbank o 45 i 30 o leoedd.

**Materion**

4. Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori o 29 Ionawr 2021 tan 19 Mawrth 2021.

5. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn rhanddeiliaid ar gynnig dros dro i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i 315 o leoedd ac atebion hirdymor posibl i sicrhau cydbwysedd priodol o leoedd mewn ysgolion cynradd Saesneg a rhai Cymraeg.

6. Golygai’r broses:

- Gyhoeddi dogfen ymgynghori ddwyieithog yn amlinellu cefndir, rhesymeg a goblygiadau i rieni, Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion cyfagos, holl Aelodau wardiau lleol, trigolion lleol a rhanddeiliaid eraill (mae copi o'r ddogfen ymgynghori i'w gweld yn Atodiad 1);
- Cyhoeddi gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol;
- Cyfarfodydd ymgynghori drwy Microsoft Teams yn cynnwys cyflwyniad parod a sesiynau holi ac ateb gyda Staff a Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Allensbank (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 2);
- Cyfarfodydd ymgynghori drwy Microsoft Teams yn cynnwys cyflwyniad parod a sesiwn holi ac ateb gyda Staff a Llywodraethwyr yn Ysgol Mynydd Bychan (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 2);
- Cyfarfodydd ymgynghori drwy Microsoft Teams yn cynnwys cyflwyniad parod a sesiynau holi ac ateb gyda Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 2);
- Cyfarfodydd ymgynghori drwy Microsoft Teams yn cynnwys cyflwyniad parod a sesiwn holi ac ateb gyda blynyddoedd 4, 5 a 6, yn ogystal â chynrychiolwyr disgyblion cyngor yr ysgol o Ysgol Mynydd Bychan (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 3);
- Cyfarfod ymgynghori drwy Microsoft Teams yn cynnwys cyflwyniad parod a sesiwn holi ac ateb gyda chynrychiolwyr disgyblion blwyddyn chwech yn Ysgol Gynradd Allensbank (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 3);
- Cyfarfodydd ymgynghori cyhoeddus drwy Ddigwyddiad Byw lle cafodd y cynnig ei esbonio a chwestiynau wedi'u hateb (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 4);
- Sesiynau galw heibio drwy Microsoft Teams gydag unigolion lle'r oedd swyddogion ar gael i ateb cwestiynau (gellir gweld nodiadau o'r cyfarfodydd yn Atodiad 5);
- Anfonwyd llythyrau yn nodi manylion y cynnig a lle gellid dod o hyd i ragor o wybodaeth at drigolion a busnesau lleol;
- Slip ymateb i ymgynghoriad i’w ddychwelyd yn y post neu drwy e-bost, a atodwyd i’r ddogfen ymgynghori;
- Ffurflen ymateb ar-lein yn [www.cardiff.gov.uk/allensbankmynyddbychan](www.cardiff.gov.uk/allensbankmynyddbychan)

7. I randdeiliaid nad oedd ganddynt fynediad i lwyfannau digidol, roedd cyfle ar gael i drafod y newidiadau arfaethedig dros y ffôn.

8. Mae’r farn a fynegwyd mewn cyfarfodydd a drefnwyd gan y Cyngor, sesiynau galw heibio. galwadau ffôn ac ar bapur neu yn electronig drwy’r sianelau priodol, wedi eu cofnodi.

**Ymatebion a dderbyniwyd yn ymwneud â’r cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori**

9. Derbyniwyd cyfanswm o 209 o ymatebion gan gynnwys 175 o arolwg ar-lein, 13 o ymatebion ffurfiol a 21 o ymatebion e-bost pellach.

10. Cafwyd ymatebion ffurfiol gan:

- Aelodau Lleol Gabalfa - Y Cynghorwyr Rhys Taylor ac Ashley Wood
- Estyn
- Aelod Seneddol Gogledd Caerdydd – Anna McMorrin AS
- Aelod o Senedd Gogledd Caerdydd - Julie Morgan AS/MS
- Cadeirydd y Corff Llywodraethu, Ysgol Gynradd Allensbank
- Pennaeth Ysgol Gynradd Allensbank
- Cadeirydd y Corff Llywodraethu, Ysgol Mynydd Bychan
- Staff, Ysgol Mynydd Bychan
- Cadeirydd y Corff Llywodraethu, Ysgol Gynradd Gladstone
- Cadeirydd y Corff Llywodraethu, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica
- Cadeirydd y Corff Llywodraethu, Ysgol Glan Ceubal
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
- Cymdeithas yr Iaith

11. Mae copïau llawn o'r ymatebion ffurfiol yn Atodiad 6.

12. Mae'r ymateb gan Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth, ac arweinyddiaeth a rheolaeth i blant yn yr ardal yn y byrdymor. Nododd Estyn fod y cynnig yn cefnogi twf addysg Gymraeg yng Nghaerdydd yn briodol a dyheadau Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, a bod yr ymgynghoriad yn cyd-fynd â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd, ac yn cyfrannu at gyflawni'r targedau a nodir yn y strategaeth Cymraeg 2050.

13. Fodd bynnag, roedd Estyn hefyd o'r farn nad oedd y cynnig yn gyffredinol yn cefnogi cynllunio strategol hirdymor o ran addysg Gymraeg.

14. Ceisiwyd barn gan randdeiliaid â diddordeb drwy gyfrwng arolwg ar-lein a fersiwn copi caled o'r arolwg o fewn y ddogfen ymgynghori.

15. O'r 175 o ymatebion i'r arolwg rhanddeiliaid ehangach, derbyniwyd 140 o ymatebion (79%) gan randdeiliaid a nododd eu bod yn rhieni. O'r rhain, roedd 84 yn rhieni i ddisgyblion Ysgol Mynydd Bychan, roedd 23 yn rhieni i ddisgyblion Ysgol Gynradd Allensbank ac roedd 16 yn rhieni i ddisgyblion Ysgol Glan Ceubal. Roedd 47 ymateb (25%) gan randdeiliaid a nododd eu bod yn drigolion lleol (24 ohonynt hefyd yn rhieni). Cafwyd gweddill yr ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys staff, llywodraethwyr, aelodau lleol a phartïon eraill â diddordeb.

16. O'r 21 ymatebion e-bost a dderbyniwyd, roedd 20 gan randdeiliaid a nododd eu bod yn rhieni. O'r rhain, roedd 13 yn rhieni i ddisgyblion Ysgol Gynradd Allensbank, roedd 4 yn rhieni i ddisgyblion Ysgol Glan

Ceubal ac roedd 3 yn rhieni i ddisgyblion Ysgol Mynydd Bychan. Nododd un rhanddeiliad eu bod yn breswylydd lleol.

17. Mae modd gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, a gwerthusiad o'r farn a fynegwyd, yn Atodiad 7.

18. Mae crynodeb ddadansoddol o'r ymatebion a dderbyniwyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 8.

19. Mae'r manylion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn cynrychioli'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r rhain yn cynnwys yr arolwg ehangach o randdeiliaid, ymatebion ffurfiol, ymatebion e-bost, safbwyntiau a fynegwyd mewn cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio a chyfarfodydd ymgynghori â disgyblion.

**Ymatebion a gafwyd ynghylch y bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan a chadarnhau niferoedd Ysgol Gynradd Allensbank o 2022**

**Arolwg rhanddeiliaid ehangach**

20. O'r 172 o randdeiliaid a ymatebodd i'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan o fis Medi 2022, roedd 57% yn cefnogi'r cynnig i gynyddu lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan, roedd 33% nad oedd yn cefnogi'r cynnig ac nid oedd gan 10% farn.

21. Fodd bynnag, o'r 173 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn ynglŷn â'r cynnig i leoli lleoedd ychwanegol ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan ar safle Ysgol Gynradd Allensbank, roedd 74% nad oedd yn cefnogi'r cynnig, roedd 18% yn cefnogi'r cynnig ac nid oedd gan 8% farn.

22. O'r 174 o randdeiliaid a ymatebodd i'r cwestiwn ynglŷn â'r cynnig i leihau nifer y lleoedd yn ysgol Gynradd Allensbank, roedd 38% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig, roedd 26% nad oedd yn cefnogi'r cynnig, ac nid oedd gan 36% farn.

23. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr arolwg rhanddeiliaid ehangach yn adlewyrchu'r rhai a godwyd yn yr ymatebion e-bost a gafwyd.

24. Roedd y rhesymau dros beidio cefnogi'r cynnig yn cynnwys:

- Dealltwriaeth o'r rhesymeg dros ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn unol â'r galw os nad yw'r capasiti ar gael;
- Dealltwriaeth o'r rhesymeg dros leihau Ysgol Gynradd Allensbank yn unol â'r galw a'r capasiti dros ben;
- Y rhesymeg dros rannu safleoedd o ystyried agosrwydd y ddwy ysgol i'w gilydd;
- Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg;
- Canmol y Cyngor am weithio i gefnogi a chyrraedd targedau Cymraeg 2050.

25. Roedd y pryderon a godwyd yn ymwneud â:

- Effaith bosibl y newidiadau arfaethedig ar Ysgol Gynradd Allensbank;
- Effaith bosibl y gostyngiad yn y gofod fydd ar gael ar Ysgol Gynradd Allensbank;
- Yr effaith bosibl ar staff a disgyblion, sy'n deillio o Ysgol Mynydd Bychan yn gweithredu ar draws dwy safle;
- Yr effaith negyddol ganfyddedig ar gaffaeliad y Gymraeg gan ddisgyblion Ysgol Mynydd Bychan fyddai'n cael eu lletya ar safle Ysgol Gynradd Allensbank;
- Yr effaith negyddol ganfyddedig ar lesiant disgyblion a staff yn y ddwy ysgol;
- Y gwahaniaeth yn y ddemograffeg o ran hil rhwng y ddwy ysgol;
- Yr effaith negyddol ganfyddedig y gallai ysgol fwy ei chael ar ethos ac undod Ysgol Mynydd Bychan;
- Yr effaith negyddol ganfyddedig ar ddarpar rieni disgyblion Ysgol Mynydd Bychan a allai fod â phryderon am yr ysgol yn gweithredu ar draws dwy safle;
- Trefniadau dalgylch, y capasiti sydd ar gael a than-danysgrifiad mewn ysgolion Cymraeg lleol eraill (Ysgol Glan Ceubal yn bennaf);
- Diffyg cynigion tymor hir ar gyfer datblygu darpariaeth Gymraeg yn Ysgol Mynydd Bychan
- Ansicrwydd ynghylch dyfodol Ysgol Gynradd Allensbank.

**Cynrychiolaeth disgyblion – Ysgol Gynradd Allensbank**

26. Cyfarfu swyddogion yn rhithiol drwy Microsoft Teams gyda disgyblion Blwyddyn 6 Ysgol Gynradd Allensbank i gyflwyno'r cynnig a thrafod y cynigion a chasglu eu barn.

27. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys y canlynol:

- Cwestiynau ynghylch newidiadau posibl yn y galw am Ysgol Gynradd Allensbank a beth fyddai hyn yn ei olygu i'r ysgol;
- Manteision rhyngweithio â disgyblion eraill, gwneud ffrindiau newydd a dysgu oddi wrth ei gilydd;
- Y cyfle i fwy o ddisgyblion fynychu Ysgol Mynydd Bychan;
- Potensial ar gyfer materion cyfathrebu oherwydd gwahaniaeth iaith;
- Pryderon ynghylch y posibilrwydd o rannu brodyr a chwiorydd ac effaith ar rieni'n gorfod mynychu dwy safle;
- Pryderon ynghylch diffyg lle yn ystod y pandemig;
- Pryderon ynghylch llai o le ac amser ar yr iard chwarae;
- Amhariad canfyddedig ar ddysgu.

**Cynrychiolaeth disgyblion – Ysgol Mynydd Bychan**

28. Cyfarfu swyddogion y rhithwir drwy Microsoft Teams gyda disgyblion Blynyddoedd 4, 5 a 6 Ysgol Mynydd Bychan i drafod y cynigion a chasglu eu barn.

29. Roedd y pwyntiau a godwyd gan y disgyblion yn cynnwys y canlynol:

- Cwestiynau ynghylch a fyddai'r ateb tymor byr yn troi'n barhaol;
- Cwestiynau ynghylch tir arall sydd ar gael ar gyfer ysgol ag adeilad newydd;
- Manteision rhyngweithio â disgyblion Saesneg eu hiaith i wella eu Cymraeg;
- Cynnydd siaradwyr Cymraeg ledled Caerdydd a chyfraniad cadarnhaol i dargedau Cymraeg 2050;
- Pryderon ynghylch y posibilrwydd o rannu ffrindiau a brodyr a chwiorydd ar draws safleoedd a'r gofid y gallai hyn ei achosi;
- Anawsterau canfyddedig ar rieni a allai orfod mynd i ddwy safle;
- Pryderon ynghylch yr effaith negyddol ar gaffael y Gymraeg a'r posibilrwydd o golli sgiliau iaith;
- Y gwahaniaeth canfyddedig yn yr adnoddau sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan;
- Nododd y disgyblion eu bod yn ffafrio ysgol 2DM mewn adeilad newydd.

**Ymatebion a gafwyd ynghylch newidiadau hirdymor i'r ddarpariaeth ysgolion cynradd**

30. Mae modd gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd, a gwerthusiad o'r farn a fynegwyd, yn Atodiad 7.

31. Mae crynodeb ddadansoddol o'r ymatebion a dderbyniwyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 8.

32. Fel rhan o'r ymgynghoriad gofynnwyd i randdeiliaid hefyd ystyried newidiadau y gellid eu gwneud i gefnogi pob plentyn a theulu yn y gymuned i gael mynediad i le mewn ysgol leol. Defnyddir y wybodaeth hon i lywio'r gwaith o ddatblygu cynigion i sicrhau cydbwysedd priodol o leoedd mewn ysgolion i wasanaethu'r ardal yn y tymor hir.

33. Gofynnwyd i ymatebwyr rannu eu barn ar newidiadau tymor hwy yn ymwneud â'r safle(oedd) ysgol yr oeddent o blaid eu defnyddio ar gyfer y mathau o addysg gynradd (lleoedd Saesneg, lleoedd Cymraeg, a lleoedd yr Eglwys yng Nghymru).

34. Roedd y safleoedd yn cynnwys safle Ysgol Gynradd Albany, safle Ysgol Gynradd Allensbank, safle a rennir Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, a safle Ysgol Mynydd Bychan.

35. Nododd ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn ffafrio:

- Darpariaeth Saesneg ar safle Ysgol Gynradd Albany (78.7% o'r ymatebwyr) a safle a rennir Gladstone/Santes Monica (55.7%);
- Darpariaeth Gymraeg ar safleoedd Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan (58.9% a 59.7% yn y drefn honno);
- Darpariaeth yr Eglwys yng Nghymru ar safle a rennir Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica (85.5%).

36. Fodd bynnag, fel yr amlinellir ym mharagraff 14, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg gan rieni i blant yn Ysgol Gynradd Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank ac mae'n rhaid ystyried yr ymatebion hyn yn y cyd-destun hwnnw. Er i'r Cyngor ymgynghori â rhieni plant sydd wedi eu cofrestru mewn ysgolion cynradd ar draws yr ardal ehangach, ychydig o ymatebion a gafwyd gan rieni plant a gofrestrwyd yn ysgolion cynradd Albany, Gladstone neu St Monica (2, 0 a 3 ymateb yn y drefn honno).

37. At hynny, ychydig o ymatebion a gafwyd gan rieni plant nad ydynt eto wedi gwneud cais am addysg gynradd nac wedi cofrestru ar gyfer addysg gynradd.

38. Felly, rhaid ystyried unrhyw ddadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd, a chasgliadau a dynnwyd o ymatebion rhieni yng nghyd-destun eu pwysoliad tuag at deuluoedd sydd wedi cofrestru yn Ysgol Gynradd Allensbank neu Ysgol Mynydd Bychan.

39. Roedd y prif bwyntiau a godwyd yn yr ymatebion yn cynnwys:

- Eisiau sicrhau bod y galw am leoedd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn cael ei fodloni;
- Y naill ysgol a’r llall angen ei safle ei hun;
- Ni ddarparwyd digon o wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori ynglŷn â'r sefyllfa hirdymor;
- Lleoliad/agosrwydd y safleoedd a awgrymwyd;
- Bod yn fodlon â'r sefyllfa bresennol a ddim yn gweld rheswm dros newid pethau;
- Bod yn erbyn hollti safleoedd.

40. Gwnaed nifer o awgrymiadau amgen hefyd i ddarparu lleoedd mewn ysgolion cynradd. Yn eu plith roedd:

- Sefydlu ysgol adeilad newydd 2Dm ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan.
- Defnyddio safle presennol Ysgol Uwchradd Cathays ar gyfer adeilad newydd Ysgol Mynydd Bychan;
- Cyfnewid safleoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank;
- Gwneud dim - gwneud defnydd o'r lleoedd gwag sydd ar gael mewn ysgolion cyfagos presennol, Ysgol Glan Ceubal yn arbennig;
- Archwilio opsiynau tir amgen;
- Addasu dalgylchoedd presennol;
- Gwella ac ehangu safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.

**Ymateb i safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar newidiadau tymor byr a thymor hir**

41. Datblygwyd y newidiadau arfaethedig fel rhan o ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu darpariaeth Gymraeg a chyfrannu at dargedau Llywodraeth Cymru a nodir yn Cymraeg 2050.

42. Roedd yr ymatebion i'r newidiadau arfaethedig yn cydnabod y dylid cyflwyno cynigion i gynyddu’r lleoedd Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal.

43. Er bod cefnogaeth gyffredinol i ehangu Ysgol Mynydd Bychan, roedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys Prifathrawon a Chyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan, nifer o bryderon ac nid oeddent yn cefnogi ehangu Ysgol Mynydd Bychan dros dro fel y cynigiwyd.

44. Roedd y pryderon a fynegwyd yn ymwneud â'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu ysgol dros ddwy safle, yr effaith ar staff a disgyblion Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Bychan Mynydd, a diffyg eglurder ynghylch y sefyllfa hirdymor.

45. Mae'r Cyngor, yn gyson ag ymagwedd Awdurdodau Lleol eraill, wedi cyflwyno cynigion i ehangu’r ddarpariaeth Gymraeg gan ddefnyddio'r capasiti dros ben sydd i’w gael eisoes mewn ysgolion Saesneg. Mae llawer o ysgolion Cymraeg Caerdydd wedi agor fel dosbarthiadau cychwynnol yn rhannu llety gydag ysgolion Saesneg, gan gynnwys yn fwyaf diweddar Ysgol Hamadryad yn rhannu safle ag Ysgol Gynradd Parc Ninian yn Grangetown cyn iddi symud yn barhaol i Butetown.

46. Mae'r ysgol gynradd Gymraeg agosaf i Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Glan Ceubal, yn rhannu ei safle a'i hadeilad gydag Ysgol Gynradd Gabalfa. Mae trefniadau parhaol tebyg ar waith mewn ysgolion eraill gan gynnwys Ysgol Gynradd Gymraeg Pen y Groes ac Ysgol Gynradd Bryn Celyn. Mae gan Gaerdydd ddwy ysgol gynradd ffrwd ddeuol hefyd, sef Ysgol Gynradd Creigiau ac Ysgol Gynradd Gwaelod y Garth. Mae'n debygol iawn y bydd ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg ledled y ddinas i gyrraedd targedau Cymraeg 2050 yn y dyfodol yn gofyn am rai trefniadau rhannu safleoedd rhwng ysgolion neu ffrydiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn y tymor byr neu'n barhaol.

47. Mae cynllun safle Allensbank hefyd yn cynnwys adeiladau ar wahân, a fyddai'n lleddfu ymhellach unrhyw bryderon ynghylch trochi.

48. Ceisiodd y Cyngor hefyd ymgysylltu â rhanddeiliaid lleol a chyda phob cymuned ysgol ar newidiadau tymor hwy yn ystod cam ffurfiannol eu datblygiad er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu datblygu gyda'u mewnbwn hwy, ac y gallai unrhyw bryderon a godwyd fod yn rhan o'r newidiadau strategol sydd eu hangen.

49. Roedd pryderon hefyd efallai na ellir gwireddu'r cynnydd a dargedir yn y galw am ddarpariaeth Gymraeg ac y gellid gadael y ddwy ysgol mewn sefyllfa o orfod rheoli'r trefniant dros dro arfaethedig dros gyfnod estynedig.

50. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod y system addysg yn elfen allweddol wrth sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac wrth greu siaradwyr newydd. Ym mis Medi 2020, roedd tua 18% o'r lleoedd oedran Derbyn cynradd a oedd ar gael ar draws y ddinas yn rhai mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg

51. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddatblygu ac ehangu addysg Gymraeg. Er mwyn gwneud cynnydd pellach tuag at darged Llywodraeth Cymru bod 25 - 29% o ddisgyblion yn derbyn addysg Gymraeg erbyn 2031, mae angen cynyddu nifer y disgyblion sy'n cael addysg Gymraeg yn yr oedran Derbyn.

52. Yn ogystal, erys mater capasiti dros ben yn y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

53. Lle mae nifer y lleoedd mewn ysgolion yn uwch na'r angen, caiff adnoddau eu defnyddio mewn modd aneffeithlon y gellid gwneud gwell defnydd ohonynt i wella ansawdd addysg pob dysgwr. Ynghyd â hyn y mae'r anawsterau sy'n gysylltiedig â chynnal ysgol gynradd sydd â chyfran uchel o'i lleoedd heb eu llenwi. Mae maint yr ysgol a'r nifer isel o blant sydd ar y gofrestr yn golygu y bydd yr ysgol yn anochel yn wynebu anawsterau ariannol.

54. Er bod cefnogaeth i ddatblygu addysg Gymraeg i gefnogi'r cynnydd tuag at Gymraeg 2050 a chefnogaeth benodol i ehangu Ysgol Mynydd Bychan, ni chefnogwyd y cynnig dros dro fel y'i nodir yn yr ymgynghoriad.

55. Disgwylir i'r niferoedd sy'n mynd i ysgolion cynradd ledled y ddinas leihau'n gyffredinol yn y blynyddoedd i ddod gan fod nifer y plant ym mhob oedran cyn-ysgol yn is nag mewn blynyddoedd diweddar.

56. Adlewyrchir hyn yn nifer y ceisiadau mynediad Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2021 a gyflwynwyd erbyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar 11 Ionawr 2021, cyn yr ymgynghoriad.

57. Yn y cylch cychwynnol o ddyraniadau ar 16 Ebrill 2021, roedd y Cyngor wedi prosesu 37 o geisiadau i'w derbyn i Ysgol Mynydd Bychan, gan gynnwys 33 o fewn dalgylch yr ysgol, ar gyfer y 30 lle oedd ar gael. Cytunodd y Cyngor ar dderbyn 30 o blant i'r ysgol.

58. Cytunodd y Cyngor ar dderbyn pob un o'r 21 ymgeisydd i'w derbyn i Ysgol Gynradd Allensbank, gan gynnwys 17 o blant yn nalgylch yr ysgol, o gymharu â'r 45 o leoedd sydd ar gael yn yr ysgol.

59. Nifer yr ymgeiswyr y cynigiwyd lleoedd yn Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Glan Ceubal iddynt oedd 28 a 24 ac 20 yn y drefn honno.

60. Er bod Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd (60 o leoedd derbyn) ac Ysgol y Wern (90 o leoedd derbyn) wedi'u tanysgrifio'n llawn adeg mynediad, roedd y naill ysgol a'r llall yn gallu derbyn pob ymgeisydd a oedd yn chwilio am le yn eu hysgol ddalgylch (53 ac 85 o ran dyraniadau dalgylch yn y drefn honno).

61. Ledled y ddinas, er bod canran y plant sy'n cofrestru mewn lleoedd Derbyn Cymraeg ym mis Medi 2021 yn debyg i'r ganran ym mis Medi

2020 (tua 18.5%), mae nifer y lleoedd a ddyrannwyd wedi gostwng o tua 760 i tua 680 o ganlyniad i boblogaeth lai.

62. Ledled y ddinas, mae data derbyniadau yn dangos y bydd dosbarthiadau Derbyn Cymraeg yn cadw tua 19% o leoedd gwag yn y niferoedd a dderbynnir ym mis Medi 2021. Mae digon o gapasiti ar draws yr ardal ehangach i fodloni'r galw am leoedd Cymraeg ym mis Medi 2021 a hyd at flwyddyn ysgol 2023/24 yn seiliedig ar batrwm presennol y nifer sy'n manteisio ar leoedd. Fodd bynnag, byddai angen gwneud newidiadau tymor hwy i'r ddarpariaeth er mwyn gwneud cynnydd tuag at dargedau Cymraeg 2050.

63. Mynegwyd pryderon hefyd yn ystod yr ymgynghoriad y byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn cael effaith negyddol ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Glan Ceubal gyfagos, ac y dylid cyflwyno mesurau amgen i gefnogi ei thwf.

64. Gan ystyried y wybodaeth uchod, argymhellir nad yw'r bwriad arfaethedig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan o 2022 yn mynd rhagddo.

65. Yn ystod yr ymgynghoriad, gofynnwyd am farn hefyd ar ddarparu lleoedd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg i wasanaethu'r ardal yn y tymor hir, gyda nifer o opsiynau amgen yn cael eu cyflwyno gan ymatebwyr.

66. Dylai unrhyw ateb hirdymor geisio:

- Ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n gwasanaethu dalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan ag 1 dosbarth mynediad ychwanegol.
- Lleihau nifer y lleoedd gwag Saesneg sy'n gwasanaethu dalgylchoedd cyfunol Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Albany ac Ysgol Gynradd Gladstone.
- Rhoi mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth, rheolaeth, addysgu a staff cymorth, i gefnogi ffocws parhaus ar safonau addysgu a chanlyniadau gwell i ddisgyblion
- Galluogi buddsoddi mewn adeiladau ysgol i wella'r amgylchedd dysgu.

67. Nododd Estyn yn ei ymateb i'r ymgynghoriad nad oedd y newidiadau arfaethedig yn cefnogi cynllunio strategol hirdymor o ran addysg Gymraeg. Fodd bynnag, datblygwyd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2017-2020 presennol y Cyngor, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru, ar adeg o gyfraddau geni uwch a phan oedd yr amcanestyniadau ar dderbyn i addysg gynradd ar lefelau uwch nag ar hyn o bryd. Bydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd y Cyngor yn nodi'r camau nesaf o ran cynyddu'n strategol gyfran y plant mewn addysg Gymraeg i gefnogi targed Cymraeg 2050 o gael 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg.

68. Ceisiodd cynigion ar gyfer ehangu Ysgol Mynydd Bychan ddarparu lleoedd ychwanegol i gefnogi'r gwaith parhaus o ehangu addysg Gymraeg a chyfrannu tuag at dargedau Cymraeg 2050, ond gan

gydnabod fod lleoedd yn ddigonol yn gyffredinol yn y blynyddoedd i ddod.

69. Mae data derbyniadau ledled y ddinas ar gyfer derbyn ym mis Medi 2021 yn cadarnhau'r gostyngiad a ragwelir yn nifer y lleoedd mewn ysgolion Cymraeg a Saesneg ledled y ddinas o ganlyniad i ostyngiad yn y boblogaeth.

70. Yn unol â'r amserlen a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid ar Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd i ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 10 mlynedd newydd ar gyfer y ddinas. Disgwylir y bydd y cynllun ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hydref 2021 cyn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022. Bydd y Cynllun 10 mlynedd cyntaf yn dechrau ar 1 Medi 2022 ac yn dod i ben ar 31 Awst 2032.

71. Bydd ymgynghoriad ar y CSCA drafft yn ceisio barn ar y ffordd orau o dyfu addysg Gymraeg a sut i gyrraedd y targedau lleol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn llywio cynigion yn y dyfodol. Bydd yr ymgynghoriad ar y CSCA yn ceisio barn ystod eang o randdeiliaid ledled y ddinas, a hefyd yn y cymunedau a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn.

72. Mae'n ddoeth felly bod yr ymatebion i ymgynghoriad CSCA yn hydref 2021 yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynigion diwygiedig ar gyfer darpariaeth ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Llandaf a Phlasnewydd, cyn i'r Cabinet eu hystyried.

**Trefniadau Derbyn**

73. Cyhoeddwyd Polisi Derbyn i Ysgolion 2022/23 drafft y Cyngor (gweler Atodiad 1) i ymgynghori arno ar 18 Rhagfyr 2020 ar gyfer pawb y mae disgwyl i'r Cyngor ymgynghori â hwynt fel yr amlinellir yng Nghod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (Penaethiaid, Cyrff Llywodraethu, Cyfarwyddwyr Esgobaethol, Awdurdodau Addysg Lleol cyfagos). Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 5 Chwefror 2021. Hyrwyddwyd manylion yr ymgynghoriad drwy'r cyfryngau cymdeithasol a'r ysgolion.

74. Roedd y newidiadau arfaethedig i drefniadau 2022/23 yn cynnwys:

- cynnydd yn y Nifer Derbyn ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan yn amodol ar gymeradwyaeth Cabinet y Cyngor o'r cynnig i gynyddu capasiti'r ysgol i 315 o leoedd
- gostyngiad yn y Nifer Derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank i 30.

75. Cyhoeddwyd y polisi ar wefan y Cyngor gyda manylion ynghylch sut i gyflwyno ymateb a oedd yn rhoi cyfle i unrhyw bartïon â diddordeb i gynnig sylw.

76. Gofynnwyd am ymatebion i ddod i law erbyn 5 Chwefror 2021.

77. Yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2021, ystyriodd Cabinet y Cyngor adroddiad ar yr ymgynghoriad a phenderfynu y dylid cytuno ar Drefniadau Derbyn i Ysgolion y Cyngor ar gyfer 2022/2023 fel y nodir ym Mholisi Derbyn 2022/2023.

**Effaith ar y Gymraeg**

78. Mae’r Cyngor yn parhau i weithio’n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae’r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i sbarduno cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy niferoedd y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a’r rhai sy’n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

79. Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, wedi ymrwymo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni’r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd, ac i gyflawni’r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

80. Mae’r Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau geni, y boblogaeth sy’n debygol o ddeillio o dai newydd a’r patrymau o ran nifer y plant sy'n mynd i ba ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd mewn galw.

81. Felly, mae’n rhaid i’r Cyngor ehangu’r ddarpariaeth ysgolion mewn modd strategol ac amserol nad yw’n amharu ar y ddarpariaeth bresennol. Yn anochel, byddai darpariaeth ysgolion cynradd Cymraeg sy'n ehangu'n sylweddol neu'n gyflym yn cael effaith ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion eraill ac, yn eu tro, ar allu ysgolion i gydbwyso cyllidebau ac i ddenu neu gadw staff.

82. Mae dyheadau'r Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn cynnig newid sylweddol. Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau cenedlaethol ar gyfer addysgu 40% o ddysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, a 30% arall o ddysgwyr i gael eu haddysgu mewn ysgolion Saesneg fel eu bod yn dod yn rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tua 17% o blant Caerdydd sy'n dechrau addysg gynradd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion neu ddosbarthiadau Cymraeg.

83. Fel yr amlinellwyd ym mharagraff 58, mae digon o gapasiti ar draws yr ardal ehangach i fodloni’r galw am leoedd cyfrwng Cymraeg ym mis Medi 2021 a hyd at flwyddyn ysgol 2023/24 yn seiliedig ar batrwm presennol y nifer sy'n manteisio ar leoedd; fodd bynnag, byddai angen gwneud newidiadau tymor hwy i'r ddarpariaeth er mwyn gwneud cynnydd tuag at dargedau Cymraeg 2050.

**Ymgynghori ag Aelodau Lleol**

84. Ymgynghorwyd ag aelodau lleol fel rhan o’r ymgynghoriad. Mae ymateb gan y Cynghorwyr Rhys Taylor ac Ashley Wood wedi'i gynnwys yn Atodiad 6.

**Rhesymau dros yr Argymhellion**

85. Er bod cefnogaeth gyffredinol i ehangu addysg Gymraeg, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys Prifathrawon a Chyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan, yn cefnogi ehangu Ysgol Mynydd Bychan dros dro fel y cynigiwyd.

86. Yn y tymor byr mae digon o gapasiti ar draws yr ardal ehangach i ddarparu ar gyfer y galw am leoedd.

87. Ar hyn o bryd mae Fforwm Addysg Gymraeg Caerdydd yn datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg newydd 10 mlynedd ar gyfer y ddinas. Nod y cynllun yw nodi'r camau nesaf o ran tyfu addysg Gymraeg i gefnogi targed Cymraeg 2050 o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg. Disgwylir y bydd y cynllun ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn hydref 2021 cyn ei gyflwyno i'w gymeradwyo i Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2022.

88. Gwneir gwaith pellach i ddwyn cynigion parhaol ger bron ar gyfer trefniadaeth ysgolion sy'n mynd i'r afael â'r materion a lywiodd y cynnig gwreiddiol, gan ystyried y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, ac sy'n cyd-fynd â nodau strategol hirdymor Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd 2022-2032 .

**<u>Goblygiadau Ariannol</u>**

89. Mae'r argymhellion i'r adroddiad hwn yn nodi y bydd y nifer derbyn cyhoeddedig ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank yn gostwng o 45 i 30, o fis Medi 2022. Gan fod cyllidebau refeniw ysgolion yn seiliedig yn bennaf ar sail niferoedd disgyblion, byddai unrhyw leihad yn nifer y disgyblion yn golygu y gallai'r gyllideb refeniw ar gyfer Allensbank ostwng o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, pe bai niferoedd cyffredinol y disgyblion yn gostwng. Mae'r ffigurau derbyn cyhoeddedig cyfredol yn adlewyrchu'r nifer bresennol a dderbynnir i ysgolion Gallai unrhyw leihad yng nghyllideb gyffredinol yr ysgol gyflwyno heriau o ran sicrhau cyllideb gytbwys. Felly, mae'n hanfodol bod yr ysgol yn gallu lleihau ei lefelau gwariant presennol er mwyn gallu gweithredu o fewn cyllideb lai. Fel rhan o hyn, bydd angen ystyried unrhyw gostau ymadael, pe bai angen lleihau'r niferoedd staffio cyffredinol o fewn yr ysgol.

90. Mae'r argymhellion eraill i'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth i gynigion amgen gael eu hystyried a'u dwyn ger bron cyfarfod o’r Cabinet

yn y dyfodol. Nid yw'r adroddiad hwn ynddo'i hun yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd angen i unrhyw gynigion amgen a ddatblygir ystyried amrywiaeth o agweddau ariannol. Efallai y bydd angen i'r rhain gynnwys materion fel; adnoddau ariannol sydd eu hangen i ariannu lleoedd disgyblion, gofynion anghenion dysgu ychwanegol, goblygiadau trafnidiaeth a gofynion ariannu cyfalaf, pe bai angen unrhyw waith sylweddol i adeiladau. Hefyd, pe bai'r cynigion amgen yn arwain at y cyfle i waredu safleoedd ysgolion, bydd angen ystyried y defnydd a wneir o'r safleoedd, y costau dymchwel a'r costau sy'n gysylltiedig â gwaredu derbyniad cyfalaf yn y dyfodol. Bydd angen blaenoriaethu unrhyw dderbyniad cyfalaf i'w ddefnyddio wrth fodloni'r targed derbyniadau cyfalaf sy'n gysylltiedig ag ariannu Rhaglen y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion.

**<u>Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb lle bo hynny'n briodol)</u>**

91. O dan ddeddf Addysg 1996, mae dyletswydd statudol gyffredinol ar y Cyngor i hyrwyddo safonau addysg uchel ac i gynnig digon o lefydd ysgol i ddisgyblion o oed ysgol gorfodol.

92. Gall awdurdod lleol wneud cynigion trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys gwneud newidiadau rheoleiddiedig i ysgol gymunedol, o dan adrannau 42-44 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ('y Ddeddf'), yn amodol ar gydymffurfio â'r Ddeddf a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 ('y Cod').

93. Rhaid i'r Cyngor ymgynghori ar ei gynigion (yn unol ag adran 48 o'r Ddeddf honno a'r Cod). Mae'r adroddiad yn nodi proses yr ymgynghoriad sydd wedi ei gynnal gyda'r cyhoedd.

94. Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi a dosbarthu adroddiad ymgynghori i bob parti sydd â diddordeb (a restrir yn y Cod):

(i) crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgyngoreion;
(ii) ymateb i'r rhain drwy eglurhad, drwy ddiwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau ategol;
(iii) nodi ymatebiad Estyn i'r ymgynghoriad yn llawn; a
(iv) ymateb i ymatebiad Estyn drwy eglurhad, drwy ddiwygio'r cynnig neu wrthod y pryderon, gan nodi rhesymau ategol.

95. Gall yr adroddiad ymgynghori hefyd wneud argymhellion i'r Cabinet ynghylch sut i fwrw ymlaen, h.y. cyhoeddi'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt gydag unrhyw addasiadau priodol, rhoi'r gorau i'r cynigion a chadw'r *status quo* neu ail-lunio'r cynigion yn sylweddol ac ailymgynghori.

96. Mae'r adroddiad Cabinet hwn, ynghyd â'r atodiadau, gyfystyr â'r adroddiad ymgynghori gofynnol. Wrth ystyried y mater hwn, mae'n ofynnol i'r Cabinet adolygu'r cynigion, gan roi sylw i'r holl wybodaeth

berthnasol ychwanegol a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori (ac fel arall).

97. Argymhelliad yr adroddiad, yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad, yw rhoi'r gorau i'r cynigion presennol, cyfarwyddo swyddogion i archwilio cynigion diwygiedig a dwyn adroddiad yn ôl i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol. Mae angen i Aelodau fod yn fodlon bod y ffordd ymlaen arfaethedig yn rhesymol a phriodol o ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Dylid nodi y bydd unrhyw gynigion diwygiedig a gyflwynir maes o law yn destun proses ymgynghori arall yn unol â gofynion y Ddeddf a'r Cod.

98. Wrth ystyried y cynigion, rhaid i'r Cyngor barchu ei ddyletswyddau cyfle cyfartal sector gyhoeddus o dan Deddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau penodol i'r sector gyhoeddus yng Nghymru). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn, rhaid i Gynghorau wrth wneud penderfyniadau dalu sylw dyledus i'r angen i (1) waredu gwahaniaethu anghyfreithlon, (2) hyrwyddo cyfle cyfartal a (3) meithrin perthnasoedd da ar sail nodweddion a ddiogelir. Y nodweddion a ddiogelir yw: oed, ailbennu rhywedd, rhyw, hil – gan gynnwys tras ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol • Crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred.

99. Wrth wneud penderfyniadau strategol, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol hefyd i roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol ('y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol' a osodir o dan adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010). Wrth ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor ystyried y canllawiau statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a rhaid iddo allu dangos sut y mae wedi cyflawni ei ddyletswydd.

100. Dylid cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i nodi goblygiadau'r penderfyniad arfaethedig o ran cydraddoldeb, gan gynnwys anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol, a dylid rhoi sylw dyledus i ganlyniadau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

101. Rhaid i'r Cyngor fod yn ystyriol hefyd o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg ac ystyried effaith ei gynigion ar y Gymraeg.

102. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn bod y Cyngor yn ystyried sut bydd y cynigion yn cyfrannu at fodloni ei hamcanion llesiant (a nodir yn y Cynllun Corfforaethol). Rhaid i aelodau fod yn fodlon hefyd bod y cynigion yn cydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, sy'n ei gwneud yn ofynnol i anghenion y presennol gael eu bodloni heb gyfaddawdu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu anghenion eu hunain.

103. Bydd cyngor cyfreithiol pellach yn cael ei gynnig wrth i gynigion gael eu datblygu.

## Goblygiadau AD

104. Mae'r adroddiad yn nodi bod y Trefniadau Derbyn i Ysgolion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2022/2023 fel y'u nodir ym Mholisi Derbyn 2022/2023 yn cynnwys Nifer Derbyn o 30 ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank.

105. Bydd angen i Gorff Llywodraethu ac Uwch Dîm Arwain Ysgol Gynradd Allensbank ystyried mynd i'r afael â'u sefyllfa o ddiffyg yn y gyllideb tra'n adolygu eu sefydliad staffio ochr yn ochr â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd.

106. Bydd hyn yn gofyn am ymgynghori llawn â staff ac undebau llafur a darperir cymorth gan y Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol.

107. Lle bo angen lleihau lefelau staffio, un o ddyheadau allweddol y Cyngor yw lleihau nifer y staff cyn belled ag y bo modd naill ai drwy ddiswyddo neu adleoli gwirfoddol, yn hytrach na dulliau gorfodol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i staff ysgolion sicrhau cyflogaeth mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd ac felly mae'n hwyluso proses adleoli o dan y Polisi Diswyddo ac Adleoli ar gyfer Ysgolion.

## Goblygiadau Eiddo

108. Byddai Ystadau Strategol yn cefnogi'r tîm Addysg ar reoli asedau ac unrhyw faterion tir sydd eu hangen yn y dyfodol fel rhan o'r broses adolygu yn y dyfodol.

109. Os bydd unrhyw drafodion tir, trafodaethau neu brisio sy'n ofynnol i gyflawni unrhyw gynigion yn y dyfodol, dylid gwneud hynny yn unol â phroses Reoli Asedau'r Cyngor ac mewn ymgynghoriad ag Ystadau Strategol a gwasanaethau perthnasol.

## Goblygiadau Traffig a Thrafnidiaeth

110. Mae Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank yn gweithredu ar safleoedd cyfyngedig. Mae problemau traffig a pharcio gan y ddwy safle ar adegau gollwng y bore a chasglu yn y prynhawn.

111. Yn ddiweddar, cyflwynodd y Cyngor gamerâu gorfodi cylch cyfyng ar Llanishen Street y tu allan i Ysgol Gynradd Allensbank i gymryd camau gorfodi yn erbyn ceir sy’n parcio ar farciau igam-ogam ‘Cadwch yn Glir’.

112. Cyflwynwyd cynllun i gau ffordd dros dro, wedi'i staffio, y tu allan i Ysgol Mynydd Bychan ar Canada Road pan ail-agorodd ysgolion yn haf 2020 ar ôl y cyfnod cloi. Roedd hyn er mwyn cyfyngu ar fynediad i gerbydau ger yr ysgol er mwyn rhoi lle diogel ar gyfer cadw pellter cymdeithasol.

113. Ers i ysgolion ailagor ym mis Medi 2020, codwyd pryderon gan rieni ac aelodau wardiau ynghylch traffig a pharcio y tu allan i Ysgol Mynydd Bychan ar Heol Seland Newydd.

114. Mae ehangu capasiti Ysgol Mynydd Bychan a'r materion traffig a pharcio yn Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank y cyfeirir atynt uchod yn tanlinellu'r angen i gyflwyno mesurau sy'n annog pobl i beidio â theithio mewn car ac i hyrwyddo teithio llesol i safleoedd y ddwy ysgol. Mae swyddogion yn bwriadu ceisio cyllid gan Lywodraeth Cymru i greu Stryd Ysgol a fyddai'n cyfyngu mynediad i gerbydau ar hyd y stryd i breswylwyr, deiliaid bathodynnau glas a deiliaid trwyddedau awdurdodedig yn unig yn ystod amseroedd gollwng a chasglu. Mae potensial hefyd i wneud hyn ar ran o Llanishen Street. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer Strydoedd Ysgol ar y ddwy stryd, ond bydd y ddau gynnig yn gofyn am ymgynghori â thrigolion a busnesau lleol.

115. Mae swyddogion bellach wedi cael cyllid gan Lywodraeth Cymru i greu Strydoedd Ysgol ar Heol Seland Newydd, a Stryd Llanisien y tu allan i Ysgol Gynradd Allensbank yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol hon. Byddai hyn yn gwneud yr amgylchedd y tu allan i'r ysgol yn fwy diogel ac yn fwy ffafriol i gerdded a beicio.

116. Offeryn arall yw datblygu a gweithredu Cynllun Teithio Llesol i'r Ysgol. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynllun felly'n nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol a bydd hefyd yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol

117. Bydd gofyn bod gan bob ysgol (yn cynnwys y rhai sydd wedi eu haildrefnu) gynllun o'r dechrau. Gall swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor gynorthwyo datblygiad y Cynlluniau Teithio Llesol a gallant gynorthwyo gydag ymgysylltu o ran y Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o waith gweithredu'r cynnig i ehangu arfaethedig ar leoedd.

**Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

118. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud ac wedi ei atodi fel Atodiad 9.

119. Mae'r asesiad yn nodi y dylai'r pwyntiau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad lywio unrhyw gynigion diwygiedig ar gyfer darpariaeth gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

**ARGYMHELLION**

Argymhellir bod y Cabinet:

1. Ddim yn bwrw ymlaen â’r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 0.9 Dosbarth Mynediad (DM) (192 o leoedd) i 1.5 DM (315 o leoedd), o fis Medi 2022.

2. Awdurdodi swyddogion i gyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet i'w ystyried, gan nodi manylion cynigion diwygiedig ar gyfer newidiadau parhaol i leoedd mewn ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd

3. Sylwer bod y Trefniadau Derbyn i Ysgolion y cytunwyd arnynt ar gyfer 2022/2023 fel y'u nodir ym Mholisi Derbyn 2022/2023 yn cynnwys Nifer Derbyn o 30 ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank.

4. Noder na fydd y cynnydd arfaethedig yn y Nifer Derbyn i 45 o leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan ym Mholisi Derbyn 2022/2023 yn cael ei weithredu.

| **UWCH SWYDDOG CYFRIFOL**<br><br>Richard Portas | **Enw’r Cyfarwyddwr**<br><br>Melanie Godfrey |
|---|---|
| | Dyddiad cyflwyno i swyddfa’r Cabinet |

*Atodir yr atodiadau canlynol:*

Atodiad 1: Dogfen ymgynghori
Atodiad 2: Nodiadau o gyfarfodydd â staff a llywodraethwyr
Atodiad 3: Nodiadau o gyfarfodydd gyda disgyblion
Atodiad 4: Nodiadau o gyfarfodydd cyhoeddus
Atodiad 5: Nodiadau o gyfarfodydd galw heibio
Atodiad 6: Ymatebion ffurfiol
Atodiad 7: Crynodeb o ymatebion i’r ymgynghoriad
Atodiad 8: Dadansoddiad cryno o'r ymatebion
Atodiad 9: Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb